

Ein Haddewid Moesegol

Cyflwyniad

Bydd Llenyddiaeth Cymru yn aml yn sôn am fod yn sefydliad sy'n cael ei 'arwain gan werthoedd'. Ond beth yw ystyr hynny ar lawr gwlad?

Isod, rydyn ni'n cyflwyno rhai camau y byddwn ni'n eu cymryd i weithio yn unol â'n gwerthoedd. Mae hyn yn cynnwys popeth o dalu ffioedd teg i weithwyr llawrydd i leihau ein hallyriadau carbon. Rydyn ni wedi ymrwymo i fod yn ymgorfforiad o'r newid yr hoffem ni ei weld yn y byd, ac rydyn ni'n croesawu sylwadau ac awgrymiadau am sut y dylen ni ymddwyn. Fel pawb ohonon ni, gwaith ar y gweill yw Llenyddiaeth Cymru, ac rydyn ni'n gobeithio gwella ac addasu dros y blynyddoedd sydd i ddod.

Cynnwys

1) Gwaith teg i weithwyr llawrydd	1
2) Gwaith teg i staff ar gontract.....	2
3) Cynaliadwyedd.....	3
4) Codi Arian yn Foesebol a Phartneriaethau.....	4
5) Cynhwysiant.....	5
6) Cyfathrebu.....	6
7) Tryloywder	7
8) Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant	8

1) Gwaith teg i weithwyr llawrydd

Mae Llenyddiaeth Cymru yn dibynnu ar weithwyr llawrydd i roi ein gweledigaeth ar waith yn effeithiol. Mae trin y gweithlu hollbwysig hwn yn deg ac yn foesebol yn bwysig iawn inni, ac rydyn ni'n gwella ein gwaith bob blwyddyn yn hyn o beth. Fe all pob gweithiwr llawrydd (creadigol neu o fath arall) ddisgwyl cael cyfleoedd, sicrwydd, mwynhad, parch a llais yn yr hyn rydyn ni'n ei wneud. Byddwn ni'n cydweithio â'r bobl sy'n gwneud gwaith llawrydd, ac fe allan nhw ddisgwyl y canlynol:

- Cael ffi teg. Byddwn ni'n sicrhau ein bod ni'n talu ffioedd ychwanegol am amser y maen nhw'n ei dreulio yn paratoi gwaith neu'n cyfrannu at ein prosesau i fesur effaith. Yn 2022, rydyn ni'n buddsoddi mewn ymchwil gydag [Ysgol Fusnes Prifysgol Aberystwyth](#) er mwyn deall y farchnad yng Nghymru yn well, a deall beth sy'n gyfystyr â thâl teg. Bydd canlyniadau'r prosiect ymchwil mawr hwn yn cael eu cyhoeddi cyn diwedd 2022.

- Cael contract manwl sy'n cyflwyno'n glir ac yn gryno beth rydyn ni'n ei ddisgwyl gan y gweithiwr llawrydd, a pha gymorth y gallan nhw ddisgwyl ei gael gan Llenyddiaeth Cymru.
- Byddwn ni'n cefnogi gweithwyr llawrydd gan ddangos ein bod yn deall eu sefyllfa, gan weithio yn unol â'n polisiau, gan gynnwys ein polisiau Diogelu, Iechyd a Diogelwch a Hygyrchedd, ond heb fod yn gyfyngedig i'r rheini. Byddwn ni'n rhoi hyfforddiant penodol pan fydd galw am hynny.

Pan fyddwn ni'n gwneud galwadau cyhoeddus ac yn recriwtio gweithwyr llawrydd yn gyhoeddus, byddwn ni'n sicrhau bod y deunyddiau wedi'u hysgrifennu mewn iaith glir a hygyrch, a byddwn ni'n darparu dogfennau mewn fformatau gwahanol i'r rheini sydd ag anghenion hygyrchedd gwahanol. Byddwn ni'n cynnig gwasanaeth dehongli BSL ar gyfer digwyddiadau ar-lein.

Mae ein holl alwadau yn agored ac yn dryloyw, o gyfleoedd i gynnal prosiectau i gyflawni swyddi llysgenhadol fel swydd Bardd Cenedlaethol Cymru. Mae hyn yn sicrhau ein bod ni'n dilyn dull democrataidd a theg o gysylltu â gweithwyr llawrydd. Yn 2023 byddwn ni'n dechrau cyhoeddi galwadau blynyddol am weithwyr llawrydd sydd â sgiliau penodol (crefftwy, ffotograffwyr, fideograffwyr) er mwyn creu rhestr o gysylltiadau wedi'i diweddarau yn hytrach na gofyn am geisiadau, neu ddyfynbrisiau niferus, ar gyfer pob prosiect.

2) Gwaith teg i staff ar contract

Mae gweithwyr Llenyddiaeth Cymru yn gwbl ganolog inni. Rydyn ni'n dibynnu arnyn nhw er mwyn cyflawni uchelgeisiau a blaenoriaethau Cynllun Strategol 2022-2025 yn effeithiol. Mae iechyd a llesiant ein tîm yn bwysig inni ac rydyn ni'n cydnabod pwysigrwydd creu a chynnal diwylliant iach, cefnogol a chynhwysol sydd hefyd yn adlewyrchu gwir natur cymunedau cyfoethog ac amrywiol Cymru.

Mae ein dull o weithio yn y maes adnoddau dynol wedi'i seilo ar dryloywder, ar ymgynghori, ar atebolrwydd ac ar ddysgu. Byddwn ni'n parhau i ddatblygu, ehangu a phroffesiynoli ein dull o weithio yn hyn o beth, gan ymgynghori â'r tîm wrth wneud hynny er mwyn creu arferion gweithio a model busnes cynaliadwy.

Mae gwaith teg yn waith sy'n rhoi cyfleoedd, diogelwch, mwynhad a llais i weithwyr, ac yn waith sy'n dangos parch. Mae hefyd yn golygu rheoli a chydbwysu hawliau a chyfrifoldebau sefydliad â rhai ei weithwyr, er mwyn i gymdeithas yn ehangach elwa.

Mae'r canlynol yn hollbwysig er mwyn sicrhau gwaith teg neu gyflogaeth deg i'r holl staff sydd dan contract:

- Sicrhau bod Bwrdd Rheoli yr Ymddiriedolwyr yn adolygu ac yn diweddarau'r **Polisi Tâl** yn flynyddol. Mae hyn yn sicrhau bod cyflogau'n parhau'n gystadleuol yn y farchnad lafur, drwy gynnal adolygiadau o gyflogau a chan dalu unigolion yn unol ag arferion a safonau arferol y diwydiant.

- Diweddau'r Polisi Cyfleoedd Cyfartal bob blwyddyn i sicrhau nad yw staff a gweithwyr posibl yn **dioddef o wahaniaethu** ar sail rhywedd, statws priodasol neu bartneriaeth sifil, hil, crefydd neu gred, cyfeiriadedd rhywiol, oedran, anabledd, statws ailbennu rhywedd, beichiogrwydd a mamolaeth, neu gan eu bod yn gweithio ar sail ran amser neu ar gontract cyfnod penodol.
- Ni fyddwn ni'n cynnig contractau **dim oriau** i unrhyw aelod o staff, a byddwn ni wastad yn talu [Cyflog Byw Gwirioneddol presennol y Deyrnas Unedig](#) i bob aelod o staff sydd ar gontract.
- Rydyn ni'n cydnabod pwysigrwydd cydbwysedd rhwng bywyd a gwaith, ac yn cynnig 25 diwrnod o **wyliau blynyddol** ar sail pro rata, yn ogystal â gwyliau banc a gwyliau braint, cyfleoedd i wirfoddoli drwy'r **Cynllun Cynaliadwyedd**, a hyfforddiant yn ystod oriau gwaith.
- Byddwn ni'n sicrhau bod ein **harferion recriwtio** – yn fewnol ac yn allanol – yn deg ac yn dryloyw, gan gydymffurfio â'n **Polisi Cyfleoedd Cyfartal** ac â'r gyfraith.
- Rydyn ni'n cynnig **trefniadau gweithio hybrid**, sef trefniant gweithio hyblyg, anffurfiol, sy'n rhoi'r cyfle i weithwyr rannu'r amser y byddan nhw'n ei dreulio yn y gweithle ac mewn lleoliad gweithio o bell (e.e. gartref). Serch hynny, gall hyn fod yn wahanol rhwng gwahanol weithwyr yn dibynnu ar natur y tasgau/cyfrifoldebau ac ar yr angen i ofalu am eu llesiant.
- Byddwn ni'n sicrhau bod **polisiâu'r sefydliad sy'n Ystyriol o Deuluoedd** (gan gynnwys y polisiâu absenoldeb Mamolaeth, absenoldeb Gofalu neu absenoldeb Mabwysiadu, ond heb fod yn gyfyngedig i'r rheini) yn cael eu rhoi ar waith mewn ffordd deg ac yn unol â'r gyfraith.
- Byddwn ni wastad yn annog staff i fod yn aelodau o undebau llafur.
- Nod ein **Fframwaith Rheoli Perfformiad** yw sicrhau bod y trefniadau rheoli llinell yn effeithiol ac yn gyson ar gyfer pob gweithiwr. Nod ein **dull o weithio sy'n seiliedig ar dasgau** yw dyrannu gwaith yn deg, canfod heriau, rhoi cymorth ac ailasesu llwyth gwaith pan fydd hynny'n briodol.
- Rydyn ni'n annog diwylliant o fod yn agored yn y sefydliad, ac yn credu y gall hyn helpu i atal camymarfer – mae atal pethau'n well na cheisio'u datrys yn nes ymlaen. Serch hynny, mae gennyn ni **bolisi chwythu'r chwiban a phrosesau cwyno** i sicrhau bod gweithwyr yn cael eu trin yn deg, ac yn unol â'r gyfraith, os a phan fyddan nhw'n mynegi pryderon.
- Byddwn ni'n adolygu ein polisiâu a'n gweithdrefnau bob blwyddyn ar ôl ymgynghori â'r gweithwyr a'r Ymddiriedolwyr.

3) Cynaliadwyedd

Mae Llenyddiaeth Cymru yn cydnabod ac yn derbyn ei bod hi'n argyfwng hinsawdd, a bod hynny'n cael effaith drychinebus ar ein byd ac ar fywydau pobl. Rydyn ni'n derbyn bod hyn yn effeithio waethaf ar y bobl dlotaf.

Byddwn ni'n gweithredu pan allwn ni, er mwyn atal yr argyfwng rhag gwaethygu ymhellach ac i godi ymwybyddiaeth drwy ein gwaith. Ni allwn fynnu bod ein gwaith yn cyd-fynd â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 heb gydnabod y difrod i'n hamgylchedd a'r argyfwng hinsawdd ym mhopeth a wnawn. Byddwn ni'n gweithio gyda phartneriaid a'n cynulleidfaoedd i geisio creu Cymru sy'n wyrddach, yn decach ac yn fwy ffyniannus. I helpu i fynd i'r afael â'r heriau hyn a gwneud Llenyddiaeth Cymru yn sefydliad mor gynaliadwy â phosibl:

- Byddwn ni'n mynd ati'n bwrpasol i roi ein **Cynllun Gweithredu Cynaliadwyedd** ar waith. Cynllun yw hwn sy'n cyflwyno camau gweithrediadol llym i gyfyngu ar ein hól-troed carbon ac sy'n rhoi manylion am sut y gall rhai o'n prosiectau creadigol roi sylw i'r argyfwng hinsawdd yn thematig.
- Er y byddwn ni'n ystyriol o **dlodi digidol** a'r rheini sy'n llai rhugl wrth ddefnyddio technoleg, byddwn ni'n lleihau ôl-troed carbon digwyddiadau llenyddol drwy gynnal digwyddiadau rhithwir neu hybrid.
- Byddwn ni'n defnyddio creadigrwydd i addysgu, archwilio a herio, gan gynyddu gwybodaeth pobl am yr argyfwng hinsawdd ac **ysbrydoli newid a fydd yn para**.
- Byddwn ni'n cefnogi cynhyrchwyr a chyflenwyr lleol wrth gael gafael ar gynhwysion a chynnyrch i Ganolfan Ysgrifennu Tŷ Newydd, gan fanteisio ar **gynnyrch tymhorol a milltiroedd bwyd is**.
- Byddwn ni'n rhoi mwy o sylw i'r galwadau am newid drwy gefnogi'r rhwydwaith cynyddol o feirdd cenedlaethol yng Nghymru ac unigolion llenyddol ysbrydoledig eraill sy'n defnyddio'u lleisiau i **alw am newid**. Byddwn ni'n gweithio gyda phartneriaid gan gynnwys Cyfoeth Naturiol Cymru, y World Wildlife Foundation a Chomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol i greu rhaglenni cenedlaethol sy'n cael effaith fawr.
- Byddwn ni'n canolbwyntio ar **weithio yn lleol** ac yn cynorthwyo i ddatblygu cymunedau cydnerth drwy gefnogi digwyddiadau llenyddol lleol a phrosiectau ystyrlon ym maes llenyddiaeth er iechyd a llesiant.
- Fel busnes, ni fyddwn ni'n teithio ar awyrennau, a byddwn ni hefyd yn annog staff, ymddiriedolwyr a'r awduron rydyn ni'n gweithio gyda nhw i ddefnyddio opsiynau **trafnidiaeth gyhoeddus** pan fydd hynny'n bosibl.
- Byddwn ni'n gweithio gydag asiantaethau a sefydliadau niferus, fel Academi Werdd Grŵp Llandrillo Menai a'n cyllidwyr, i ddod yn sefydliad **carbon niwtral**.

4) Codi Arian yn Foesebol a Phartneriaethau

Elusen yw Llenyddiaeth Cymru ac mae angen inni godi arian drwy amryw o gyllidwyr a phartneriaid er mwyn cyflawni ein gweledigaeth. Mewn gair, po fwyaf o arian y byddwn ni'n ei godi, y mwyaf o effaith y byddwn ni'n ei chael.

Serch hynny, mae o ble y daw ein harian yn bwysig inni, ac rydyn ni'n ceisio codi arian mewn ffordd mor foesebol â phosibl. Yn ôl y Sefydliad Codi Arian (cyfieithiad):

"Dim ond mewn amgylchiadau eithriadol y dylid gwrthod rhoddion i elusennau, sef:

• *Pan fyddai'n anghyfreithlon derbyn yr arian hwnnw (e.e. bydd y sefydliad yn gwybod bod y rhodd yn deillio o enillion troseddau); neu*

• *Pan fyddai derbyn y rhodd yn niweidiol i gyflawni dibenion y sefydliad, fel yr amlinellir yn ei gyfansoddiad. Rhaid cydbwysu'r niwed disgwyledig â'r budd a fyddai'n deillio o gael y cyllid gan y rhoddwr, ac a fyddai'n galluogi'r sefydliad i geisio cyflawni ei ddibenion."*

Gall yr ail bwynt uchod arwain at gryn dipyn o amwysedd. Er bod ein Polisi Codi Arian yn Foesebol yn cynnwys sawl gwaharddiad cwbl ddiamed (fel peidio â derbyn arian gan bobl neu sefydliadau sy'n rhan o fusnesau tanwyddau ffosil, neu ar ran pleidiau gwleidyddol), mae'r sefyllfa foesebol yn go niwlog wrth edrych ar nifer o ffynonellau cyllid posibl. Rydyn ni wedi datblygu system fewnol drylwyr i bwysu a mesur manteision posibl neu effeithiau niweidiol cyllid, ac mae Bwrdd yr Ymddiriedolwyr yn goruchwyllo'r system hon.

Mae llawer o waith Llenyddiaeth Cymru'n cael ei wneud mewn partneriaeth ag elusennau a busnesau eraill. Yn aml, bydd ein partneriaid yn ein helpu i gyrraedd cymuned benodol, neu maen nhw'n arbenigwyr yn eu meysydd.

Mae'n bwysig i ni bod ein partneriaid yn rhannu ein gwerthoedd a'n gweledigaeth. Dyna pam mae gennyn ni broses drylwyr i ddatblygu partneriaethau, gan gynnwys cynnal sgwrs ar y dechrau'n deg am ein gwerthoedd a'n hegwyddorion wrth gyflawni, ac mae'r rhain wedyn yn cael eu gwreiddio yn nogfennau cytundebau'r partneriaethau.

Ein nod yw bod yn dryloyw ynghylch o ble y daw ein harian a sut y mae'n cael ei wario. Os oes gennych chi ddiddordeb mewn cael mwy o wybodaeth, darllenwch ein <hadroddiadau blynyddol> neu <cysylltwch â ni>

5) Cynhwysiant

Nod Llenyddiaeth Cymru yw bod yn groesawgar ac yn garedig wrth ddod ag ystod amrywiol o bobl ynghyd yn y sector celfyddydau a llenyddiaeth – boed yn awduron, yn gynulleidfaoedd, yn weithwyr llenyddol proffesiynol, yn gynhyrchwyr, yn staff, yn ddarllenwyr neu'n gyfranogwyr – a hynny waeth beth fo'u cefndir. Rydyn ni'n gwmni cenedlaethol sydd â gwerthoedd cynhwysol, ac rydyn ni am i bawb yng Nghymru allu ymwneud â ni ac â'n gwaith. Rydyn ni'n gwybod bod amryw o rwystrau'n dal i fodoli yn y sector a'r rheini'n atal awduron, darllenwyr a chynulleidfaoedd rhag ymwneud â llenyddiaeth. Er mwyn helpu i fynd i'r afael â'r rhwystrau hyn a gwneud Llenyddiaeth Cymru mor gynhwysol â phosibl:

- Byddwn ni'n rhoi **Rhestr o Ofynion Hygyrchedd** i bobl hwylusydd sy'n cynnal prosiectau o dan gontractau inni, gan sicrhau ein bod ni'n gallu creu amgylchedd hygyrch, diogel a chyfforddus iddyn nhw weithio ynddo. Bydd gofynion hygyrchedd pob unigolyn yn unigryw, ond drwy'r Rhestrau hyn o Ofynion, ein gobaith yw dysgu mwy am sut i wneud ein digwyddiadau a'n prosiectau yn fwy cynhwysol a hygyrch i bawb.
- Fel y gwelir yn yr adran am Gyfathrebu, byddwn ni'n darparu cynnwys mewn fformatau niferus, er mwyn i'n cynulleidfaoedd allu eu defnyddio'n rhwydd.

- Bydd tîm o staff Llenyddiaeth Cymru yn cymryd rhan yn rheolaidd meswn sesiynau **hyfforddiant ym maes cynhwysiant**, gan gynnwys hyfforddiant yn y meysydd Hygyrchedd, Anabledd ac Ymwybyddiaeth o Fyddardod.
- Bydd y rhan fwyaf o'n gweithgareddau yn **rhad ac am ddim**, ac yn ceisio apelio at grwpiau sy'n cael eu tangynrychioli. Ar gyfer rhaglen o gyrsiau agored Tŷ Newydd, bydd **ysgoloriaethau** ar gael i awduron nad ydyn nhw'n gallu mynychu, a bydd rhaglen gyfochrog o gyrsiau strategol yn cael ei darparu i roi hyfforddiant datblygu awduron yn rhad ac am ddim i grwpiau penodol.
- Byddwn ni'n ceisio cyflogi mwy o staff, ac yn rhoi contractau i fwy o hwyluswyr a thiworiaid sydd ag **amrywiaeth eang o brofiadau bywyd**. Wrth gynnal ein gweithgareddau, bydd y rhain yn batrymau i'w hefelychu ac yn gallu annog grwpiau sy'n cael eu tangynrychioli i deimlo'n gyfforddus yn cymryd rhan yn ein gwaith.
- Byddwn ni'n **arbrofi â gwahanol blatfformau** er mwyn cyrraedd cynulleidfaoedd, gan ddefnyddio ystafelloedd cyfarfod rhithwir i gyrraedd y rheini nad ydyn nhw'n gallu teithio, ond gan fod yn ymwybodol o'r heriau sy'n gysylltiedig â thlodi digidol.
- Mae gennyn ni **Gynllun Datblygu'r Gymraeg** sy'n amlinellu ein cyfrifoldeb tuag at y Gymraeg. Byddwn ni'n sicrhau bod y Gymraeg yn cael ei thrin yn gyfartal â'r Saesneg ym mhopeth a wnawn, a bod siaradwyr Cymraeg yn cael eu cynnwys yn ein rhaglenni.

6) Cyfathrebu

Mae Llenyddiaeth Cymru'n ceisio sicrhau bod ei holl ddeunydd cyfathrebu yn ddefnyddiol ac yn berthnasol i'w gynulleidfaoedd, a'u bod yn gallu ymwneud â'r sefydliad yn y ffordd sy'n fwyaf addas iddyn nhw. Rydyn ni'n ceisio sicrhau bod ein deunydd cyfathrebu **yn glir, yn gryno** ac yn **gywir** bob amser, gan sicrhau hefyd bod y dôn a'r cynnwys yn addas i'r gynulleidfa dan sylw.

- **Canolbwyntio ar werthoedd:** Byddwn ni wastad yn cadw at ein gwerthoedd, a bydd y rhain yn sail i'n deunydd cyfathrebu, gan gynnwys pa bapurau newydd y byddwn ni'n cysylltu â nhw i geisio sicrhau sylw, ble y byddwn ni'n gosod hysbysebion, pa negeseuon allanol ar y cyfryngau cymdeithasol y byddwn ni'n eu rhannu, ac at ba fath o ddigwyddiadau y byddwn ni'n cyfrannu.
- **Cynhwysol:** Byddwn ni'n ceisio darparu cynnwys mewn fformatau niferus, er mwyn i'n cynulleidfaoedd allu eu defnyddio'n rhwydd. Mae hyn yn cynnwys rhoi isdeitlau ar ein fideos, darparu fersiynau o ddogfennau cyhoeddus sy'n ystyriol o Ddyslecsia, darparu sgrindeitlo byw ar gyfer digwyddiadau ar-lein pan fydd hynny'n bosibl, a rhagor.
- **Proffesiynol:** Byddwn ni'n gwrtais, yn deg ac yn dangos parch.
- **Cyfrifol:** Byddwn ni'n ystyriol o breifatrwydd pobl eraill ac yn parchu cyfrinachedd. Byddwn ni wastad yn gweithredu pan welwn ddeunydd cyfathrebu sy'n dangos ymddygiad neu iaith sy'n anaddas yn ein barn ni, a byddwn ni'n rhoi gwybod i'r awdurdodau perthnasol am unrhyw ohebiaeth neu negeseuon sy'n mynd gam yn rhy bell. Byddwn ni'n cydymffurfio â holl bolisiau Llenyddiaeth Cymru sy'n gysylltiedig â

chyfathrebu, gan gynnwys ein Polisi TG, Teleffon a Chyfathrebu; Polisi'r Cyfryngau Cymdeithasol; ein Canllawiau Cymunedol; Cynllun Datblygu'r Gymraeg; a thelerau platfformau'r cyfryngau cymdeithasol rydyn ni'n eu defnyddio.

- **Cywir:** Rydyn ni'n ceisio sicrhau bod ein cynnwys yn gywir a bod y ffeithiau'n cael eu gwirio pan fydd angen gwneud hynny. Os byddwn ni'n gwneud camgymeriad, byddwn ni'n ei gywiro'n ddi-oed.
- **Tryloyw:** Byddwn ni'n glir ac yn agored am ein gweithgareddau – am sut y mae penderfyniadau'n cael eu gwneud ac am sut y maen nhw'n cael eu rhoi ar waith a'u hariannu.
- **Iaith:** Byddwn ni'n rhannu ein cynnwys yn Gymraeg ac yn Saesneg ac yn sicrhau bod modd i'n cymuned ymwneud â ni yn y naill iaith neu'r llall. Byddwn ni'n dangos parch at holl ieithoedd Cymru ac yn dathlu amlieithrwydd ein cymunedau.

7) Tryloywder

Mae Llenyddiaeth Cymru'n cydnabod bod angen bod yn dryloyw. Rydyn ni eisiau bod yn atebol i'n cyllidwyr, i'n rhanddeiliaid ac i'r cyhoedd yn gyffredinol. Byddwn ni'n sicrhau bod yr holl wybodaeth berthnasol ar gael i'r cyhoedd, a byddwn ni'n ymateb i geisiadau rhesymol am wybodaeth ychwanegol mewn ffordd briodol.

Byddwn ni wastad yn gwneud y pethau hyn:

- Rhannu ein hadroddiad blynyddol a'n cyfrifon ar ein gwefan ac â Thŷ'r Cwmniau. Bydd hyn yn cynnwys:
 - y gwariant ar ffioedd a threuliau awduron yn ystod y flwyddyn ariannol
 - dadansoddiad o'n hincwm, % yr incwm a gafwyd o gyllid cyhoeddus, o incwm masnachol, o roddion ac ati.
- Cyhoeddi ein hadroddiadau effaith chwarterol ar ein gwefan, sy'n cynnwys ein cynnydd o dan yr amcanion a osodir gan Gyngor Celfyddydau Cymru, ynghyd â thargedau gweithrediadol mewn meysydd fel Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant, a Chynaliadwyedd.
- Cwblhau ffurflenni blynyddol y Comisiwn Elusennau'n brydlon bob blwyddyn, gan adrodd am lefelau incwm a gwariant y flwyddyn ariannol flaenorol.
- Cofnodi'n gywir unrhyw daliadau i'n hymddiriedolwyr am wasanaethau, e.e. ffioedd awduron, mewn Cofrestr o Fuddiannau. Caiff y gofrestr hon ei diweddarau bob chwarter a'i chyhoeddi ar wefan y sefydliad.
- Cydnabod cyfraniadau ein partneriaid at brosiectau ac adlewyrchu hyn mewn unrhyw ddeunyddiau hyrwyddo, h.y. ar y cyfryngau cymdeithasol, taflenni, posteri.
- Rhannu gwersi creadigol a gweithrediadol i'w dysgu â'r sector, drwy ein hadroddiadau sefydliadol a thrwy rwydweithiau fel What Next Cymru, a'u rhannu hefyd â phartion sydd â diddordeb.

- Ymateb i geisiadau rhesymol am wybodaeth am ein rhaglen, neu gyngor, o fewn 10 niwrnod gwaith. Gallai ceisiadau cymhleth gymryd hwy, ond o fewn yr amser hwnnw gall rhywun ddisgwyl ymateb sy'n esbonio pryd y dylen nhw glywed rhagor, ynghyd â chael manylion cyswllt aelod dynodedig o staff.
- Ymateb i gwynion yn brydlon ac mewn ffordd resymol.

8) Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant

Fel yr amlinellir yn ein cynllun gweithredu Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant, mae Llenyddiaeth Cymru wedi ymrwymo i weddnewid ein diwylliant llenyddol drwy sicrhau bod hwnnw'n gynrychioladol o bawb yng Nghymru ac yn hygyrch i bawb yng Nghymru. Mae'n hanfodol gwneud ein gorau glas i sicrhau cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant er mwyn i'r sector llenyddiaeth ffynnu a bod yn ystyrlon i bawb. Mae'r gred honno'n greiddiol i'n gwerthoedd fel sefydliad, a dyna sy'n gyrru ein gweledigaeth a'n strategaeth.

Rhoi pwyslais ar fod yn wrth-hiliol

- Byddwn ni'n tynnu sylw at hiliaeth yn ein sector pan fydd yn digwydd.
- Byddwn ni'n ceisio bod yn batrwm i'w efelychu yn y sector, gan sicrhau bod ein polisïau gweithio a'n prosiectau yn hybu cynhwysiant a dull gwrth-hiliol o weithio. Er enghraifft, mae ein rhaglen datblygu awduron, **Cynrychioli Cymru** – rhaglen bwysig a blaengar – hyd yma wedi rhoi cymorth dwys i grŵp newydd o 14 awdur o gefndiroedd incwm isel, ac mae'n dal i gefnogi 12 o awduron o liw o'r rownd gyntaf drwy ein rhaglen ôl-ofal 3 blynedd.
- Rydyn ni'n cefnogi cynllun y Llywodraeth i wneud Cymru yn genedl wrth-hiliol, a byddwn ni'n gweithio gyda phartneriaid ledled Cymru i helpu i wireddu hyn. Er enghraifft, rydyn ni wedi gweithio'n agos gyda'r sefydliad addysg DARPL (Diversity and Anti-Racist Professional Training). Mae hyn wedi cynnwys gwaith parhaus i ddatblygu hyfforddiant proffesiynol gwrth-hiliol i athrawon mewn ysgolion drwy Gymru.

Ein gweithlu

- Byddwn ni'n parhau i ddefnyddio prosesau recriwtio sy'n annog cynhwysiant a thryloywder. Er enghraifft, rydyn ni'n cymryd camau gweithredu cadarnhaol drwy warantu cyfweiliadau i ymgeiswyr sy'n ateb gofynion swyddi ac sy'n arddel hunaniaeth pobl sy'n cael eu tangynrychioli yn y sector llenyddiaeth.
- Byddwn ni'n dilyn yr arferion hyn wrth gyflogi staff Llenyddiaeth Cymru ac aelodau o fwrdd Llenyddiaeth Cymru.

Cyfranogi

- Byddwn ni'n rhoi cyfleoedd ystyrlon i uwchsgilio hwyluswyr ac arweinwyr gweithdai sydd â phrofiadau bywyd er mwyn iddyn nhw allu ymwneud yn effeithiol â'n cymunedau targed sy'n cael eu tangynrychioli.
- Byddwn ni'n cynnig cyfleoedd drwy amrywiaeth o blatfformau – gan gynnwys gweithdai ar-lein i'r rheini na allan nhw deithio am resymau iechyd a/neu oherwydd cyfrifoldebau gofalu.
- Byddwn ni'n sicrhau gwaddol ar gyfer ymyriadau yn y dyfodol drwy weithio mewn partneriaeth.

Datblygu Awduron

- Byddwn ni'n buddsoddi arian ac amser mewn ffordd sy'n targedu ein cymunedau sy'n cael eu tangynrychioli.
- Byddwn ni'n creu continwwm o ysbrydoliaeth, cyfleoedd dysgu a chyfleoedd datblygu proffesiynol i bawb, o blant ysgol gynradd i weithwyr proffesiynol.
- Byddwn ni'n defnyddio pobl sy'n batrymau gweladwy i'w hefelychu i ysbrydoli, arwain a mentora.
- Byddwn ni'n gweithio i gael gwared ar y rhwystrau hanesyddol y mae pobl wedi'u hwynebu wrth geisio datblygu fel awduron proffesiynol.
- Byddwn ni'n datblygu strwythurau asesu mewnol diduedd a chynhwysol nad ydyn nhw'n dibynnu, gyda'r nod o fod yn deg, ar ddulliau asesu rhy gymhleth sy'n rhoi baich rhy drwm ar awduron.

Diwylliant Llenyddol Cymru

- Byddwn ni'n rhannu ein platfform.
- Byddwn ni'n sicrhau ein bod ni'n penodi i swyddi llysgenhadol yn ofalus – gan ddewis pobl sy'n adlewyrchu'r cymunedau maen nhw'n eu gwasanaethu.
- Byddwn ni'n cyflogi amrywiaeth eang o hwyluswyr i arwain ein gwaith.